



Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Bro Morgannwg
6 Chwefror 2019
Cofnodion

Yn bresennol:		
Enw	Teitl	Sefydliad
Y Cyng John Thomas (JT)	Arweinydd	Cyngor Bro Morgannwg
Judith Cole (JC)	Dirprwy Bennaeth Gweithlu a Phartneriaethau Cymdeithasol (Llywodraeth Leol)	Llywodraeth Cymru
Christian Hadfield (CH)	GM - Adran Gweithrediadau (Bro Morgannwg a Phen-y-bont ar Ogwr)	Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Gareth O'Shea, (GOS)	Rheolwr Gweithredoedd	Cyfoeth Naturiol Cymru
Fiona Kinghorn (FK)	Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd	BIP Caerdydd a'r Fro
Hannah Williams (HW)	Pennaeth De Cymru Un	Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
Mark Brace (MB)	Comisiynydd Cynorthwyol	Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd De Cymru
Hefyd yn bresennol:		
Huw Isaac (HI)	Pennaeth Perfformiad a Datblygu	Cyngor Bro Morgannwg
Helen Moses (HM)	Rheolwr Strategaeth a Phartneriaeth	Cyngor Bro Morgannwg
Lloyd Fisher (LF)	Uwch Swyddog Data a Pholisi	Cyngor Bro Morgannwg
Anne Wei	Rheolwr Partneriaeth a Chynllunio Strategol	BIP Caerdydd a'r Fro
Lewis Gwyther (LG)	Prif Swyddog Cyfathrebu ac Ymgysylltu	Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Susan Toner	Prif Arbenigwyr Hybu Iechyd	BIP Caerdydd a'r Fro
Suzanne Wood	Ymgynghorydd Iechyd y Cyhoedd	BIP Caerdydd a'r Fro
Nick Jones	Arweinydd y Tîm Tai a Phrojectau Strategol	Cyngor Bro Morgannwg
Tori Brown	Uwch Reolwr Cymdogaeth	Cyngor Bro Morgannwg
Ymddiheuriadau:		
Rob Thomas (RT)	Rheolwr Gyfarwyddwr	Cyngor Bro Morgannwg
Paula Ham (PH)	Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau	Cyngor Bro Morgannwg
Emil Evans (EE)	Is-brifathro	Coleg Caerdydd a'r Fro
Y Cynghorydd Mike Cuddy (MC)	Cynrychiolydd Cyngor Tref a Chymuned Enwebedig	Cyngor Tref Penarth

Rachel Connor (RC)	Cyfarwyddwr Gweithredol	Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg
Abigail Harris (AH)	Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Chynllunio	BIP Caerdydd a'r Fro
Stuart Parfitt	Prif Uwch-arolygydd	Heddlu De Cymru
Huw Jakeway (HJ)	Prif Swyddog Tân	Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

	Camau Gweithredu
<p>1. Croeso a chyflwyniadau</p> <p>Croesawodd JT bawb i'r cyfarfod a bu cyflwyniadau.</p>	
<p>2. Ymddiheuriadau Gweler uchod.</p>	
<p>3. Cofnodion Cyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar 10 Rhagfyr 2019</p> <p>Cytunwyd bod y cofnodion yn gofnod cywir.</p>	
<p>4. Diweddariad ar Weithredu Cynllun Llesiant</p> <p>Cyflwynodd HI y diweddariad ar weithredu'r Cynllun Llesiant ac esboniodd, fel y cytunwyd yn y cyfarfod iwethaf, y bydd yr eitem hon yn parhau i fod yn eitem agenda sefydlog. Caiff diweddariad ei roi ar bob Amcan a'r camau gweithredu wedi'u halinio; ond, caiff un Amcan ei ystyried a'i drafod yn fanwl. Yn y cyfarfod hwn, adolygwyd Amcan 1 - "Galluogi pobl i gyfranogi, cymryd rhan yn eu cymunedau lleol a siapio gwasanaethau lleol" yn fanwl.</p> <p>Diweddariad ar Amcan 2 - Lleihau tlodi a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau sydd ynghlwm ag amddifadedd:</p> <p>Dywedwyd FK wrth y Bwrdd fod myfyriwr ôl-raddedig o Brifysgol Caerdydd wedi'i benodi i weithio gyda thîm Partneriaeth a Strategaeth Cyngor Bro Morgannwg i nodi blychau yn ein data, adolygu ymchwil mwy diweddar a llunio adroddiad i lywio gwaith ynghylch yr Amcan hwn yn fwy.</p> <p>Mae gwaith yn cael ei wneud i nodi synergedd rhwng y deg grant a nodwyd gan Lywodraeth Cymru gan eu huno i grey dau lif ariannu, Grant Cymorth Tai a Grant Plant a Chymunedau. Nododd FK y bydd y gwaith hwn yn benodol bwysig o ran mynd i'r afael â thlodi ac amddifadedd ym Mro Morgannwg gan eu bod yn cynnwys grantiau gyda ffocws penodol ar fynd i'r afael â thlodi: Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf, Cymunedau am Waith a Cefnogi Pobl. Caiff cynllun penodol ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 8 Chwefror a chaiff cynllun cyflawni terfynol ei gyflwyno ar 1 Mawrth. Disgwylir, trwy 2019, y bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu canllawiau i annog integreiddio gwell a ffocws ar ganlyniadau a rennir.</p> <p>Amcan 3 - Rhoi'r dechrau gorau posib ar fywyd i blant:</p> <p>Esboniodd HM fod yr Amcan hwn yn destun diweddariad manwl yng nghyfarfod mis Rhagfyr y Bwrdd ac felly nid oes llawer o ddatblygiadau sylweddol wedi bod wedi'r diweddariad diwethaf. Yn dilyn sgysiau cychwynnol gyda Llywodraeth Cymru sydd wedi cyngori bod digon o datganiadau o ddiddordeb wedi'u derbyn, nid yw'r BGC am gymryd rhan yng nghynllun braenaru Blynyddoedd Cynnar Llywodraeth Cymru. MAe gwaith bellach yn cael ei wneud i fynd i'r afael â Phrofiadau Plentynod Negyddol (PPNau) ac i nodi cyfleoedd i weithio ar draws y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd a Bro Morgannwg. Mae ystyriaeth yn cael ei rhoi i sut y gellir defnyddio'r grant cymorth ieuencid i gefnogi gwaith ar wydnwch mewn ysgolion fydd hefyd yn cyfrannu at waith PPNAu. Bydd y Grant Plant a Chymunedau y cyfeirir ato dan Amcan 2 hefyd yn cyfrannu at y gwaith dan yr Amcan hwn.</p>	

Amcan 4 - Diweddariad ar ddiogelu, gwella a gwerthfawrogi ein hamgylchedd:

Nododd GOS, wrth symud y cam gweithredu i wneud ein hystadau cyhoeddus yn wyrdd, fod Grŵp Rheoli Asedau Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro wedi cael £60,000 gan Lywodraeth cymru i symud ymlaen gyda'r gwaith mapio asedau. Mae'r gwaith hwn yn adeiladu ar broject peilota llwyddiannus wedi'i wneud gan BGC Cwm Taf. Bydd yr arian yn talu am adolygiad o ystadau'r Sector Cyhoeddus ym mhob rhan o Gaerdydd a'r Fro a bydd yn helpu i nodi meysydd i ymestyn yr arolwg yn fwy os bydd arian ar gael yn 2019/20.

Diweddariad manwl - Amcan 1 - Galluogi pobl i gyfranogi, cymryd rhan yn eu cymunedau lleol a siapia gwasanaethau lleol:

Cyflwynodd CH yr Amcan ac esboniodd bod cynnydd da wedi'i wneud ar nifer o gamau gweithredu. Mae Grŵp Gorchwyl a Gorffen Ymgysylltu wedi'i sefydlu i symud y gwaith yn ei flaen a gwnaeth gwrdd am yr ail dro ar 5 Chwefror. Mae'r grŵp wedi nodi'r camau gweithredu y gallai fynd â nhw yn eu blaen mewn partneriaeth, i rannu gwybodaeth a datblygu arfer gorau.

Esboniodd LG fod y grŵp yn edrych ar hyn o bryd at gydlynu cofrestru ar gyfer Egwyddorion Cenedlaethol Ymgysylltu, gan fod rhai sefydliadau BGC wedi ymrwymo i'r egwyddorion tra na yw rhan eriall wedi cofrestru eto. Nodwyd y gallai'r BGC ei hun gofrestru ar gyfer yr egwyddorion yn ei rinwedd ei hun o bosibl. Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen hefyd yn cyflawni ymarfer mapio i nodi dulliau ymgysylltu a rhwydweithiau cyfredol ar draws y bartneriaeth, nodi gwaith arfer a fydd yn cael ei gynnwys mewn pecyn cymorth ymgysylltu.

Nod y grŵp yw bod yn weithredol trwy sicrhau bod gwybodaeth a digwyddiadau'n cael eu rhannu ar draws y BGC a lle bo'n bosibl eu huno i sicrhau negeseuo cyson a manteisio i'r eithaf ar ein gweithgareddau ymgysylltu. Nododd LG y rhoddwyd cyflwyniad ar fenter Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif Iechyd (MECC) Cyhoeddus Cymru yn nghyfarfod diwethaf y grŵp gorchwyl a gorffen. Esboniodd FK fod y project MECC wedi'i arwain yn lleol gan Sian Griffiths, mae cynnydd wedi'i fwydo i'r strategaeth genedlaethol. Mae'r project yn ymwneud â mwyhau momentau addysgadwy ar gyfer diylanwadu ar ymddygiad iach, manteisio i'r eithaf ar gyfle wrth siarad â rhywun i annog dewisiadau iach cadarnhaol trwy ddefnyddio negeseuon wedi'u safoni. Gallai partneriaid ddefnyddio'r dull hwn wrth ymgysylltu â phobl i sicrhau negeseuo cyson ac i integreiddio dulliau. Mae modiwl e-ddysgu wedi'i greu ac mae ar gael ar-lein, gallai hyn gael ei ddefnyddio gan bartneriaid i hyfforddi staff yn y dull MECC.

Esboniodd CH fod ymgysylltu'n thema a haen a geir trwy'r Cynllun Llesiant ac nad yw wedi'i gyfyngu'r Amcan hwn yn unig. Bydd gwaith i symud camau gweithredu yn eu blaen yn cael effaith ar bob rhan o'r Cynllun. Mae CH yn cyflwyno Nick Jones a Tori Brown i siarad am fancio amser sy'n un o'r camau gweithredu dan yr Amcan hwn.

Cyflwyniad: Bancio amser

Mae adeiladu ar y profiad o gynlluniau bancio amser i archwilio'r posibilrwydd o gynllun y Fro gyfan yn gam gweithredu sy'n cyd-fynd ag Amcan 1 yn y Cynllun Llesiant. Mae Tîm Cyfoethogi Cymunedau Cyngor Bro Morgannwg yn yr Adran Tai

wedi bod yn gweithio ar gynllun bancio amser lleol gydag thenantiaid tai. Rhoddwyd cyflwyniad i'r Bwrdd ar gynnydd y cynllun. Esboniodd NJ fod y cynllun wedi bod ar waith er 12 mis, yn hyrwyddo ymgysylltu gweithredol â thenantiaid a magu ysbryd y gymuned trwy gynnig cyfleoedd gwirfoddoli ledled Bro Morgannwg. Mae'r cynllun wedi'i ddatblygu mewn partneriaeth â Tempo, cwmni sydd â phrofiad o sefydlu cynlluniau bancio amser eraill yn llwyddiannus ledled y DU.

Gan gydweithio, mae busnessau lleol wedi cael eu recriwtio i gynnig cyfleoedd gwario credydau ac i sefydlu grŵp llywio projectau. Mae'r cynllun yn galluogi pobl i ennill credydau amser trwy gymryd rhan mewn cyfleoedd gwirfoddoli, gellir gwario credydau mewn siopau, lleoliadau a phrofiadau sy'n cymryd rhan yn lleol ac yn genedlaethol. Nodwyd bod tenantiaid yn hanesyddol wedi'u dangynrychioli'n anghyfartal fel gwirfoddolwyr ond byddai'r rhan fwyaf ohonynt yn cael y manteision mwyaf trwy fod yn wirfoddolwyr. Hyd at fis Hydref 2018, roedd 364 o denantiaid wedi cofrestru ar gyfer y cynllun bancio Amser gyda 9.5% o denantiaid Cartrefi'r Fro yn cymryd rhan, sy'n fwy na tharged y flwyddyn gyntaf o 5%. Mae'r cyfranogwyr hyn wedi cyfrannu 1,660 awr o wirfoddoli yn y Fro.

Esboniodd TB, cyn ac ar ôl cymryd rhan mewn cyfleoedd gwirfoddoli, y gofynnir i gyfranogwyr asesu nifer o gwestiynau allweddol megis ansawdd eu bywydau, gallu i gyfrannu at eu cymuned a'u profiadau o unigrwydd ac ynysu. Mae pob cyfranogwr wedi adrodd effeithiau cadarnhaol ar gyfer eu llesiant ar draws pob cwestiwn allweddol, gan ddangos y manteision y gall bancio amser eu creu ar gyfer llesiant pobl. Mae llawer o denantiaid sy'n cymryd rhan yn y cynllun wedi neu yn profi iechyd meddwl gwael, mae'r cynllun yn gweithio mewn partneriaeth ag Amy Evans, y Tîm Iechyd Meddwl, i gynnig cyfleoedd i wirfoddolwyr, gyda ffocws penodol ar weithgareddau man gwyrdd, gan weithio gyda cheidwaid yn Cosmeston a pharciau gwledig Porthceri. O ganlyniad, adroddwyd gwirfoddolwyr deimladau mwy o lesiant oherwydd effeithiau synhwyraidd bod yn yr awyr agored a lleihad mewn allgáu cymdeithasol. Helpodd y grŵp hwn i ddenfyddio eu credyd amer ynghyd, gan fynd i'r afael yn fwy â risgiau allgáu cymdeithasol ac unigrwydd.

Mae cydlyniant cymunedol mwy wedi bod yn agwedd ychwanegol ar y cynllun. Gan weithio mewn partneriaeth â grŵp o drigolion mewn ardal gyda blociau o fflatiau uchel y meddyliwyd yn hanesyddol eu bod yn llety dros dro a gyda chyfyngiad ar fuddsoddi cymunedol, mae'r cynllun wedi'i ddefnyddio i annog trigolion i wella eu hamgylchedd lleol. Trwy helpu i drefnu digwyddiad cymunedol y Pasg a chynnal digwyddiad amwynder sgipiau. Mae llawer o deuluoedd sy'n cymryd rhan yn y cynllun wedi bod yn ddiwaith yn hirdymor a thrwy fancio amser, maent wedi mynd ymlaen i ymgysylltu â'r gwasanaethau cymorth cyflogaeth. Mae hyn wedi'i adlewyrchu ar draws y project bancio Amser fel cyfanwaith, gyda 2 denant yn dod o hyd i gyflogaeth a 52 yn ennill cymhwyster ffurfiol. I ddangos yn fwy fanteision y project, gwahoddwyd tenantiaid sy'n cymryd rhan yn y project Bancio Amser i siarad wrth Bwyllgor Craffu'r Cyngor ar effaith gadarnhaol bod yn rhan o fancio amser, gan nodi'r effeithiau cadarnhaol ar eu hyder a'u hunan-barch.

Yn dilyn llwyddiannau'r project hyd yn hyn, maeadroddiad wedi'i gyflwyno i Gabinet y Cyngor i amlinellu'r cynllun ar gyfer y 12 mis nesaf. Bydd yn bwysig

ymestyn y project i ardaloedd gwledig y Fro, gan ymgysylltu â thenantiaid nad ydynt wedi bod yn rhan o'r cynllun. I fynd â'r cynllun yn ei flaen, bydd angen cofrestru partneriaid ychwanegol, ac i weithio'n fwy rhanbarthol; mae'r cynllun yn cyd-fynd yn fwy â llawer o agweddau ar agenda'r BGC a gallai gynnig cyfleoedd i bartneriaid gymryd rhan.

Esboniodd HI y adroddwyd trosolwg o'r cynllun bancio amser a'i gynnydd i Dîm Rheoli Corfforaethol y Cyngor a derbyniodd ymateb cadarnhaol gyda chydweithwyr yn mynegi diddordeb mewn bod yn rhan o'r cynllun yn y dyfodol.

Nododd FK fod y cynllun yn dangos ymgysyllu mewn ffordd sy'n hyrwyddo iechyd, a gallai fod yn broject unigryw i'r BGC ei symud ymlaen. Esboniwyd bod offer wedi'u dilysu ar gael sydd wedi'u defnyddio yn y gorffennol gan Iechyd y Cyhoedd y gellir eu defnyddio i dystio manteision y cynllun i iechyd a llesiant pobl. Esboniodd GOS fod Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) wedi dechrau datblygu cynllun tebyg yn gweithio gyda'r gwasanaeth prawf i gynnig cyfleoedd i'r rheiny sy'n gweithio gyda gwasanaethau prawf i ddefnyddio manau gwyrdd. Hefyd mwy Cyngor Sir Trefynwy yn mynd â chynllun bancio amser yn ei flaen a gallai fod cyfleoedd i rannu dysgu ar draws y cynlluniau.

Awgrymodd FK, lle bo'n bosibl, wrth ymestyn y cynllun, y gellir gwneud cysylltiadau ag ardaloedd y gellir rhoi cyllid a chymorth iddynt trwy waith sy'n cael ei symud ymlaen trwy'r agenda iechyd a gofal cymdeithasol. Gallai uno'r agenda gynnig cyfleoedd i gefnogi cynaliadwyedd hirdymor y project. Dywedodd JC fod Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn edrych ar ddulliau bancio amser, a bydd yn sôn am y dull hwn i sicrhau bod ymwybyddiaeth o'r cynllun.

Esboniodd HM mai'r cam gweithredu yn y Cynllun Llesiant oedd 'adeiladu ar y profiad o gynlluniau bancio amser lleol', byddai cymorth gan bartneriaid BGC wrth gyflwyno'r cynllun yn ehangach a symud y cynllun yn ei flaen o fudd. Nododd MB fod y cynllun yn cynnig cyfle i bob partner gymryd rhan a dylai fod yn rhywbeth mae'r BGC yn edrych arno.

5. Digwyddiad Llywodraeth Cymru 20 Mawrth 2019: Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus: Myfyrio ar Drefniadau sy'n Dod i'r Amlwg

Esboniodd HI fod llinyn cyffredin sy'n rhedeg trwy'r tair eitem agenda nesaf. Caiff cynhadledd ei chynnal ar 20 Mawrth ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGCau) a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Myfyrio ar Drefniadau sy'n Dod i'r Amlwg Dylai'r BGC fod yn anfon cynrychiolwyr i'r gynhadledd, yn enwedig o ystyried trafodaethau'r cyfarfod diwethaf ynghylch integreiddio a rôl y ddau Fwrdd yn y rhanbarth.

Esboniodd JT y caiff trafodaethau cychwynnol eu cynnal rhwng Cynghorau Caerdydd a Bro Morgannwg am bosiblwydd uno gwaith y BGCau a phosiblwydd sefydlu BGC ar y cyd. Dywedodd HI y gallai fod yn bosibl gael gyfarfodydd y Bwrdd bob yn ail i sicrhau y gellir rhannu gwybodaeth unwaith; ond, bydd y bwysig sicrhau bod hunaniaeth Bro Morgannwg yn cael ei chynnal.

<p>Esboniodd GOS nad yw CNC yn aelodau o'r BPRhau, ond bydd CNC yn anfon cynrychiolwyr i'r digwyddiad ar lefel genedlaethol. O ran y posibilrwydd o uno dulliau yn y Fro a Chaerdydd, esboniwyd y byddai cael mwy o drafodaethau yn cael ei groesi gan lawer o sefydliadau; fodd bynnag, bydd angen bod yn ofalus i beidio ag anwybyddu blaenoriaethau lleol sydd wedi'u nodi yn y Cynllun Llesiant. Byddai agwedd fwy rhanbarthol yn cynnig lefel fwy priodol i drafod gwaith megis Datganiadau Ardal sy'n nodi risgiau a chyfleoedd amgylcheddol arni.</p> <p>Cododd MB bryderon ynghylch colli ffocws lleol, ond, nad yw Comisiynwyr Heddlu a Throseddau wedi'u cynrychioli ar FPRhau hefyd, bydd acydwedd yn galluogi nodi synergedd mewn gwaith. Nododd FK, o ganlyniad i ôl troed y Bwrdd Iechyd Prifysgol, byddai agwedd ranbarthol o fantais mewn rhai achos; fodd bynnag, bydd angen peidio â cholli'r cylfe i symud gwaith i fynd i'r afael â materion sy'n unigryw i'r Fro yn ei flaen.</p> <p>Esboniodd CH y bydd yn bwysig peidio â cholli lleoliaeth y mae'r BGC wedi'i hymwreiddio trwy'r Cynllun Llesiant, bydd o fudd dechrau sgyriau am fynd ag agwedd ranbarthol yn ei blaen, a pheidio â cholli ffocws lleol. Dywedodd AW y bydd angen sicrhau bod y perthnasoedd sydd wedi'u creu trwy'r BGC e.e. gyda Chynghorau Tref a Chymuned yn cael eu cynnal.</p> <p>Nododd HM fod yr Asesiad Llesiant lleol wedi bod yn bwysig o ran llywio'r gwaith o ddatblygu'r blaenoriaethau yn y Cynllun Llesiant a bydd yn parhau i fod yn bwysig wrth i'r BGC ddatblygu ei Asesiad Llesiant nesaf; bydd hyn yr un peth hefyd ar gyfer y BPRh a'i Asesiad Anghenion y Boblogaeth. Bydd angen ystyried y dystiolaeth sydd wedi llywio'r blaenoriaethau mewn trafodaeth am fynd â'r agwedd ranbarthol yn ei blaen.</p> <p>HM i gael gwybod pwy fydd yn mynd i'r digwyddiad ar draws y bartneriaeth.</p>	<p>HM</p>
<p>6. Grant Cymorth Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus 2019/20</p> <p>Nododd HI, yn yr un modd â darpariaeth grant ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol, fod y grant ar gael ar ôl troed rhanbarthol. Rhennir hyn yn gyfartal ar draws BGCau Caerdydd a Bro Morgannwg. Mae derbyn y grant yn amodol ar waith rhanbarthol yn cael ei nodi a'i symud ymlaen; bydd y cais am grant yn cael ei gyflwyno ar 8 Mawrth. Esboniodd HM fod y grant yn dilyn amodau tebyg â'r flwyddyn flaenorol, yn canolbwyntio ar gefnogi gwaith ymgysylltu a datblygu gwaith data. Gofynnodd HI i'r BGC ystyried unrhyw feddyliau cychwynol ar y cyllid a'u dychwelyd cyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno. Awgrymwyd y gallai'r cyllid hwn gael ei ddefnyddio i gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r cynllun bancio amser.</p>	
<p>7. Trafodaeth Rheoli Perfformiad</p> <p>Gan adeiladu ar yr adroddiad Rheoli Perfformiad a gyflwynwyd yn y cyfarfod diwethaf, esboniodd HM fod yr adroddiad hwn yn cynnig set o ddangosyddion lefel y boblogaeth i'r BGC ei gymeradwyo. Cylchredwyr y mesurau a gynigiwyd i'r BGC cyn y cyfarfod ac wedi'u newid wedi cael adborth. Rhennir y dangosyddion yn brif ddangosyddion a dangosyddion is-lefel sy'n cynnig cymysgedd o wybodaeth sydd ar gael ar lefel genedlaethol a lleol, ac sy'n cynnig</p>	

cydbwysedd yn erbyn y bedair agwedd ar lesiant a phedwar Amcan Lles y BGC. Cytunodd y BGC ar y dull a gynigiwyd o reoli perfformiad a'r set o ddangosyddion.

Esboniwyd bod rhad i'r BGC lunio Adroddiad Blynyddol erbyn mis Gorffennaf 2019, dim llai na 14 mis wedi cyhoeddi ei Gynllun Llesiant. Nododd HM nad oes llawer o gyfarwyddyd ar beth y dylai Adorddiadau Blynyddol ei gynnwys a sut golwg y dylai fod arnynt. Mae adborth anffurfiol wedi dangos y byddai croeso i agweddau mwy arloesol.

Ar gyfer yr Adroddiad Blynyddol cychwynnol hwn, efallai na fydd llwyddiannus neu ganlyniadau sylweddol i'w hamlygu o safbwynt traddodiadol; ond, mae straeon newyddion da a chynnydd y gellir eu casglu a'u hadlewyrchu trwy'r Adroddiad Blynyddol. Esboniodd HM y bydd angen diffinio pwy yw cynulleidfaf'r Adroddiad Blynyddol er mwyn dechrau strwythuro'r adroddiad yn briodol. Dywedodd HI fod posibilrwydd ymgymryd â dull o ddefnyddio fideo i ddala cynnydd, neu dull tebyg. Awgrymodd AW, os oes rhyddid i fynd at yr adroddiad yn wahanol, wedyn dylai'r BGC edrych ar hyn. Nododd GOS y bydd yn bwysig sicrhau bod gwahanol leisiau, megis y rhai hynny sy'n rhan o'r cynllun bancio Amser, yn cael eu clywed trwy'r Adroddiad Blynyddol gan y bydd hyn tynnu sylw Llywodraeth Cymru a Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

8. Cyflwyniad: Fframwaith Pwysau Iach Drafft Caerdydd a'r Fro

Cyflwynodd SW gyflwyniad ar greu Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Caerdydd a Bro Morgannwg. Esboniwyd mai'r Fro yw'r ardal awdurdod lleol orau ar hyn o bryd o ran ei pherfformiad yn erbyn gordewdra; fodd bynnag, mae dal llawer o waith i'w wneud gan fod tebygrwydd o 80% y bydd plentyn gordew yn dod yn oedolyn gordew. Mae'r tebyrwydd hyn yn dyblygu os yw'r plentyn hwnnw o'r cwintel mwyaf amddifadedd. Nodwyd bod problem sy'n tyfu ledled y Fro gyda 56% naill ai'n rhy drwm neu'n ordew ac 18% yn ordew.

MAe Llywodraeth Cymru wrthi'n ymgynghori ar 'Pwysau Iach, Cymru Iach' sy'n nodi'r bedair brif thema i fynd i'r afael â'r broblem gyda gordewdra yng Nghymru. Pedair prif thema'r strategaeth yw:

- Arweinyddiaeth a galluogi newid
- Amgylcheddau iach
- Lleoliadau iach
- Pobl iach

Gwnaeth FK gynnig i Gydweithwyr Iechyd y Cyhoedd Caerdydd a'r Fro greu ymateb i'r strategaeth ddrafft ar ran y BGC.

Mewn ymateb i'r strategaeth genedlaethol ddrafft, yng Nghaerdydd a'r Fro, caiff cynllun gweithredu drafft ei ddatblygu a fydd yn rhoi pobl a chymunedau wrth wraidd yr agwedd ac i adeiladu ar ddarnau allweddol i waith sydd wedi'u symud ymlaen hyd yn hyn megis gwaith ynghylch annog teithio llesol, gwaith i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb bwyd a mynediad at fwyd cynaliadwy trwy 'Food Vale', a dylanwadu ar yr arena cynllunio, dylunio'r amgylchedd wedi'i adeiladu i greu cyfleoedd iach.

FK

Mae digwyddiadau wedi'u trefnu i weithwyr proffesiynol ym mis Mawrth i helpu i lywio'r gwaith o ddatblygu Fframwaith Pwysau Iach i Gaerdydd a Bro Morgannwg. Mae diddordeb wedi'i nodi gan FGC Caerdydd am sesiwn i swyddogion, caiff swyddogion o bartneriaid BGC eu gwahodd i'r sesiwn hwn hefyd. Bwriedir y caiff y Cynllun Gweithredu Strategol Pwysau Iach drafft ei gwblhau ac yn dechrau cael ei weithredu o Haf neu Hydref 2019. Wedyn caiff cyfnod ymgynghori i lywio'r cynllun gweithredu drafft ymhellach ei gynnal er mwyn galluogi cyhoeddi terfynol ar yr un pryd â chyhoeddi'r Strategaeth Genedlaethol.

9. Cyflwyniad: Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd Caerdydd a Bro Morgannwg 2018. Symud Mwy ac yn Fwy Aml

Cyflwynodd ST Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd Caerdydd a Bro Morgannwg. Esboniwyd bod yr adroddiad eleni'n canolbwyntio ar bwysigrwydd bod yn actif, gyda pheidio bod yn actif yn gorfforol yn cael ei sgorio gan SAC fel y pedwerydd achos mwyaf o farwolaeth byd-eang a'i gysylltu â phroblemau iechyd cronig gan gynyddu costau ar gyfer y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG).

Yn erbyn argymhellion gweithgarwch corfforol cyfredol o 150 munud yr wythnos, mae'n ymddangos bod perfformiad y Fro yn dda ar 56%, ond wrth gymharu ag ardaloedd eraill y DU megis Bryste ar 74.3%, a chenhedloedd Ewropeaidd megis Sweden ar 67%, nid yw'r perfformiad yn cael agraff mor dda. Yn yr un modd, mae perfformiad yn erbyn pobl yn gwneud llai na 30 munud o weithgarwch corfforol yr wythnos yn gymharol wael gyda 32% o bobl yn gwneud llai na 30 munud o weithgarwch. Mae data tueddiadau ar gyfer Oedolion ar weithgarwch o 30 munud neu fwy ar 5 diwrnod neu fwy a 150 munud neu fwy yn yr wythnos flaenorol yn dangos perfformiad yn gymharol wastad dros wahanol flynyddoedd. I blant a phobl ifanc, mae'r darlun yn dangos bod modd gwella hefyd gyda dim 18% yn adrodd eu bod yn actif am o leiaf 60 munud y diwrnod.

Caiff yr Adroddiad Blynyddol ei strwythuro'n straeon ar gyfer 6 chymeriad gwahanol yn dangos sut gall ymyriadau gwahanol helpu pobl o wahanol gefndiroedd ac â gwahanol alluoedd i ddod yn fyw actif. Adroddir y straeon hyn mewn taflen ac wedyn eu roi ar-lein. Caiff ffeithluniau ac astudiaethau achos eu defnyddio i lywio penodau technegol fydd ar gael ar-lein. Ac eithrio'r straeon gaiff eu cyhoeddi, bydd yr adroddiad ar gael ar-lein yn unig. Y gobaith yw y bydd yr Adroddiad Blynyddol yn cynnwys negeseuon allweddol i bawb, argymhellion ar gyfer sefydliadau ac y bydd yn helpu i yrru a llywio camau gweithredu Cynllun Gweithredu Strategol Pwysau Iach Caerdydd a'r Fro.

Gofynnodd FK i'r BGC am eu cyfranogiad parhaus yn y gwaith o fynd â dulliau o gefnogi pobl i fod yn actif ymlaen, gan gynnwys: ymgysylltu parhaus â dewisiadau teithio iach ac actif, dylanwadu ar ddyluniad amgylcheddau i gefnogi iechyd a llesiant, gweithredu polisiau'r gweithle i gefnogi staff i fod yn actif, dylanwadu ar ysgolion a'u cwricwlwm i hyrwyddo gweithgarwch corfforol a dylanwadu ar ddulliau cynllunio. Penderfynwyd y byddai swyddogion o ardaloedd BGC Caerdydd a Bro Morgannwg yn cael eu dwyn ynghyd i drafod y

<p>cyfleoedd ar gyfer mynd â'r blaenoriaethau a'r camau gweithredu wedi'u nodi yn yr Adroddiad Blynyddol ymlaen.</p>	
<p>10. Y Flaenraglen Waith</p> <p>Dywedodd FK y caiff Fframwaitn Pwysau Iach Drafft Caerdydd a Bro Morgannwg ei gyflwyno yng nghyfarfod mis Medi yn dilyn ymgynghoriad a lansiad bwriedig y Fframwaith yn yr Hydref.</p> <p>Awgrymodd HM eitem i'r dyfodol ar Gyngorau Cymuned a Thref a pherthnasoedd gyda BGCau.</p> <p>Dywedodd AW y caiff diweddariad ar Gynllun Gwasanaethau Clinigol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a Bro Morgannwg ei gyflwyno yng nghyfarfod mis Ebrill.</p>	
<p>11. Dyddiad y cyfarfod nesaf</p> <p>9 Ebrill 2019, 14:00-16:00pm, Ystafell Bwyllgor 2, Swyddfeydd Dinesig</p>	